

Cymorth Ariannol Tai Gwag Sir Ddinbych

Mae nifer o gymhellion ariannol ar gael i gynorthwyo perchnogion cartrefi gwag i wneud defnydd o'u heiddo unwaith eto. Mae grantiau ar gael gan yr awdurdod lleol a'r cynllun newydd a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Grantiau

Ar gyfer perchnogion cartrefi gwag sy'n dymuno rhentu eu heiddo, mae grantiau ad-daladwy gwerth hyd at £10,000 neu 50% o gost y gwaith gofynnol i wneud defnydd o'r eiddo unwaith eto. Mae amodau i'r grantiau hyn, er enghraifft

Gallai Cymorth Cartref Gwag fod ar gael i berchennog sy'n dymuno gosod ei eiddo lle:-

- Bod yr eiddo wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis neu ragor
- Bod yr eiddo wedi ei ddefnyddio o'r blaen fel eiddo preswyl
- Rhoddir ystyriaeth i anghenion tai lleol
- Eu bod ar gael ar rent am 3 blynedd ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol.
- Gall Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) reoli'r cytundeb tenantiaeth am y cyfnod o 3 blynedd os oes angen am ffi reoli o 12.5%.
- Bod ganddynt fuddiant perchennog yn yr eiddo
- Rydych wedi bod yn berchen ar yr eiddo am 6 mis cyn gwneud cais

Rhaid i brynwyr tro cyntaf sy'n dymuno cael mynediad i gymorth ariannol cartrefi gwag:

- Sicrhau bod yr eiddo wedi bod yn wag ers o leiaf 6 mis neu ragor cyn ei brynu
- Sicrhau bod yr eiddo wedi'i ddefnyddio o'r blaen fel annedd preswyl
- Fod yn prynu'r eiddo gwag er mwyn preswyl ynddo eu hunain yn unig
- Fod yn prynu cartref gwag ym Mandiau Treth y Cyngor A, B, C & D.

Bydd y grantiau hyn wedi'u cofrestru yn erbyn yr eiddo drwy bridiant Tir Lleol.

Cynllun Benthyciadau 'Troi Tai'n Gartrefi' Llywodraeth Cymru.

Mae ffrwd ariannol newydd hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cynllun benthyciadau 'Troi Tai'n Gartrefi' yn cynorthwyo gyda:

- Gwaith adnewyddu i eiddo gyda'r bwriad o'i werthu (cyfnod uchafswm o 2 flynedd ar gyfer ad-dalu)
- Gwaith adnewyddu i eiddo gyda'r bwriad o'i rentu allan (cyfnod uchafswm o 3 blynedd ar gyfer ad-dalu)
- Hwyluso 'gwaith mewn diffyg' yn unig, lle bod bwriad i fwrw ymlaen gyda threfn werthu orfodol.

Bydd benthyciadau yn hyd at £25,000 fesul uned, uchafswm o £150,000 fesul ymgeisydd. Mae'r benthyciadau'n rhai di-log a byddant yn destun ffi ymgeisio o rhwng £295 a £495 yn ogystal â thaliad o rhwng £50 a £70 i'r gofrestrfa tir.